

**Atodiad i'r Ymgynghoriad ar Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg  
(Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru)  
2021 arfaethedig**

1. Mae'r Atodiad hwn yn tynnu sylw at fersiwn ddiwygiedig o'r Gorchymyn drafft, a gyhoeddwyd ar 7 Medi 2020 i ymgynghori arno tan 4 Rhagfyr 2020. Er mwyn rhoi amser i ystyried y newidiadau a ddisgrifir isod, mae'r cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn a bydd bellach yn cau ar 11 Rhagfyr 2020.
2. Mae'r Gorchymyn drafft diwygiedig yn mewnosod y mesurau diogelu ychwanegol canlynol i'r broses Gorchymyn Atal Dros Dro Interim:
  - a. Hawl i gyn-berson cofrestredig apelio i'r Uchel Lys
  - b. Gofyniad bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn gwneud cais i'r Uchel Lys am unrhyw estyniad i Orchymyn y tu hwnt i 18 mis.

*Yr Hawl i Apelio*

3. Mae adran 27 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn diffinio 'Gorchymyn Disgyblu' fel a ganlyn:
  - a. cerydd
  - b. gorchymyn cofrestru amodol
  - c. gorchymyn atal dros dro
  - d. gorchymyn gwahardd.
4. O dan ddarpariaethau adran 32 o Ddeddf 2014, caiff person y mae Gorchymyn Disgyblu wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef apelio yn erbyn y gorchymyn i'r Uchel Lys. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad Panel Priodolrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg i osod gorchmynion na fyddent yn effeithio ar statws cofrestredig person a'i allu i geisio cyflogaeth (er enghraifft cerydd).
5. Nid yw Gorchymyn Atal Dros Dro Interim yn 'orchymyn disgyblu'. Fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, nid oedd y Gorchymyn drafft yn cynnwys hawl i apelio yn erbyn gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim. Roedd hyn yn ymddangos yn annheg wrth ystyried goblygiadau gorchmynion o'r fath, a fyddai'n dileu enw person o'r gofrestr ac a fyddai'n atal person cofrestredig rhag gweithio yn y proffesiwn a ddewiswyd ganddo am 18 mis, yn erbyn Gorchmynion Disgyblu eraill.
6. Credwn fod darparu hawl i apelio yn erbyn gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim yn cynnig diogelwch ychwanegol i'r rhai sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor gan ei fod yn sicrhau dull annibynnol o graffu a herio. Mae'n gyson â'r darpariaethau yn Neddf Addysg (Cymru) ac yn cyfrannu at dryloywder y broses.

7. Felly, rydym wedi diwygio'r Gorchymyn arfaethedig ym mharagraff 10 i gynnwys hawl i apelio i'r Uchel Lys.

#### *Ymestyn Gorchymyn Atal Dros Dro Interim y tu hwnt i 18 mis*

8. Fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ymdrin yn benodol â'r hyn sy'n digwydd os na fydd mater yn dod i ben o fewn 18 mis y Gorchymyn Atal Dros Dro Interim.
9. Ein cynnig yw mai dim ond mewn achosion difrifol iawn lle ceir pryderon diogelu y caiff Gorchymynion Atal Dros Dro Interim eu defnyddio. Deallwn y gall fod achosion pan fydd person yn cael ei gyhuddo o drosedd lle y gall gymryd mwy na 18 mis i'r system cyfiawnder troseddol gwblhau'r achos. Er enghraifft, achosion yn ymwneud â honiadau rhywiol difrifol gyda nifer o dystion.
10. Wrth i achosion troseddol fynd rhagddynt, ni fydd y Cyngor fel arfer yn cynnal ei ymchwiliad ei hun.
11. O dan ddarpariaethau'r Gorchymyn fel y'i drafftwyd yn flaenorol, byddai'r Cyngor wedi medru gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim newydd yn yr achosion hyn, ar yr amod bod y gorchymyn yn parhau i fod yn angenrheidiol er budd y cyhoedd.
12. Rydym wedi diwygio'r Gorchymyn drafft ym mharagraff 17 i ychwanegu gofyniad i'r Cyngor wneud cais i'r Uchel Lys am unrhyw estyniad i Orchymyn Atal Dros Dro Interim y tu hwnt i 18 mis. Unwaith eto, mae hyn yn cyfrannu at dryloywder y broses, ac yn darparu amddiffyniad ychwanegol gan ei fod yn sicrhau craffu annibynnol gan y Llys mewn achosion hirfaith.

#### **Memorandwm Esboniadol**

O ganlyniad i'r diwygiadau i'r Gorchymyn drafft, ychwanegir y paragraff canlynol at y Memorandwm Esboniadol:

#### Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

Nid oes angen asesiad ffurfiol o'r effaith ar gyfiawnder ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i benderfynu ar effaith bosibl y darpariaethau canlynol ar y llys:

- Hawl i gyn-berson cofrestredig apelio i'r Uchel Lys yn erbyn gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim
- Gofyniad i'r Cyngor wneud cais i'r Uchel Lys os ydynt yn dymuno ymestyn Gorchymyn Atal Dros Dro Interim y tu hwnt i 18 mis.

Ein hamcangyfrif presennol yw y bydd tua 1-2 Gorchymyn Atal Dros Dro Interim y flwyddyn yn cael eu herio mewn gwrandawriad gan y Cyngor. Mae'n anos asesu faint

o geisiadau am estyniad fyddai eu hangen gan y bydd hyn yn digwydd i raddau helaeth lle mae oedi yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, gan mai dim ond mewn achosion difrifol iawn y disgwylir i Orchmynion Atal Dros Dro Interim gael eu gosod, disgwyliwn i niferoedd cyffredinol y Gorchmynion Atal Dros Dro Interim fod yn isel ac felly rydym yn rhagweld y bydd yr effaith ar y llys yn fach iawn.

**Rydym yn parhau i groesawu ymatebion i'r ymgynghoriad, a fydd yn dod i ben ar 11 Rhagfyr 2020.**